# Cronfa Budd Cymunedol Porth Wen

## Gwybodaeth a Chanllawiau ar gyfer y Gronfa Flynyddol

Trosolwg o'r Gronfa: Mae arian y Gronfa o Fferm Solar Porth Wen

Mae £14,000 ar gael yn y Gronfa ar gyfer cymunedau Cemaes ac Amlwch. Mae £11,200 wedi'i ddyrannu i Gemaes a £2,800 i Amlwch. Ceir un cyfle i gyflwyno cais yn flynyddol.

Bydd y Gronfa Flynyddol yn caniatáu i ymgeiswyr wneud cais am grantiau rhwng £500 a £2,000 fesul cais.

Disgwyliwn i geisiadau ddangos lleiafswm o 20% o gyllid cyfatebol. Rhaid i hyn fod yn gyfraniad ariannol, gan na fydd rhoddion mewn nwyddau yn cael eu hystyried. Er enghraifft, os yw cyfanswm cost y prosiect yn £2,000, gallwch wneud cais am £1,600 o'r Gronfa hon, gyda'r £400 sy'n weddill i'w gael o gronfeydd eraill.

Os na allwch ddarparu o leiaf 20% o gyllid cyfatebol, esboniwch y rheswm yn adran gyllid y ffurflen gais. Byddwch yn parhau i gael eich ystyried ar gyfer y gronfa.

Ni all ymgeiswyr llwyddiannus wneud cais am y grant mewn blynyddoedd olynol. Er enghraifft, os bydd grŵp neu unigolyn yn derbyn grant yn 2025, ni fyddant yn gymwys i wneud cais eto tan 2027. Mae hyn yn sicrhau tegwch trwy roi cyfle i fwy o unigolion a grwpiau elwa o'r grant bob blwyddyn.

Mae grwpiau cymunedol ac unigolion, Cynghorau Tref, a sefydliadau gwirfoddol o ardaloedd Amlwch a Chemaes yn gymwys i wneud cais.

Rhaid i ymgeiswyr fod â chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn enw'r sefydliad cyn gwneud cais am grant.

## Eithriadau

Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer:

- Sefydliadau masnachol
- Clybiau a chyfleusterau chwaraeon sy'n seiliedig ar aelodaeth breifat, oni bai bod aelodaeth ar agor i'r cyhoedd heb gyfyngiadau afresymol (e.e., nid trwy wahoddiad neu sefydliadau ar sail enwebiad yn unig)
- Prosiectau sy'n elwa unigolyn yn unig
- Prosiectau sy'n ennyn rhaniad hiliol neu grefyddol, gwrthdaro, neu gasineb, neu sy'n cefnogi ymgyrchoedd neu achosion pleidiol-wleidyddol
- Cyllid Ôl-weithredol: Dim ond ar gyfer prosiectau neu dreuliau a fydd yn dechrau ar ôl i'r panel wneud penderfyniad ariannu a'ch bod wedi derbyn cadarnhad ffurfiol o gymeradwyaeth y gellir gofyn am gyllid.
- Gwaith sy'n cael ei ystyried yn gyfrifoldeb statudol, megis gwaith ar briffyrdd cyhoeddus, meysydd parcio cyhoeddus, neu waith mewn ysgolion sy'n dod o dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Addysg Lleol

• Gweithgareddau sy'n gwrthdaro â buddiannau'r cyllidwr. Er enghraifft, ni allwn ariannu unrhyw brosiectau neu sefydliadau sy'n gwrthwynebu ynni adnewyddadwy.

Thema’r Prosiectau:

Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i brosiectau gyd-fynd ag o leiaf un neu fwy o'r themâu canlynol. Bydd prosiectau sy’n bodloni’r meini prawf hyn yn cael blaenoriaeth.

• Addysg a Hyfforddiant

• Bioamrywiaeth a Chadwraeth Cynefinoedd

• Cyfrannu at Gymunedau Bywiog, Iach, Llwyddiannus a Chynaliadwy

• Hyrwyddo Ysbryd Cymunedol ac Annog Gweithgaredd Cymunedol

• Gwella Mannau Awyr Agored

• Cefnogi Cyflogaeth yn yr Ardal

Sicrhewch fod eich cais yn dangos yn glir sut mae eich prosiect yn mynd i’r afael ag un neu fwy o’r themâu hyn yn adran trosolwg y prosiect ar y ffurflen gais.

Meini Prawf Barnu

Bydd y panel yn asesu ceisiadau yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

• Buddion Cymunedol: Sut mae’r prosiect yn dod â budd i’r gymuned trwy un neu fwy o’r themâu a restrir uchod (e.e., bioamrywiaeth, ysbryd cymunedol, addysg, hanes, ac ati).

• Gwydnwch Cymunedol: Potensial y prosiect i ddatblygu gwydnwch cymunedol trwy gefnogi syniadau newydd a chreadigol.

• Iaith Gymraeg: Cyfraniad y prosiect at feithrin a hyrwyddo’r Gymraeg.

• Ymarferoldeb: Ymarferoldeb y prosiect, gan ystyried amserlenni ac adnoddau ariannol sydd ar gael.

• Ystyriaethau Ychwanegol: Bydd y panel hefyd yn ystyried ffactorau megis gallu’r ymgeisydd i gyflawni’r prosiect, gwerth am arian, defnyddio contractwyr lleol, a nifer y bobl yn yr ardal a fydd yn elwa o’r prosiect.